# POLISI A GWEITHDREFN CHWYTHU'R CHWIBAN (DATGELU ER LLES Y CYHOEDD)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyhoeddi:** | **Chwefror 2012** |
| **Adolygwyd:** | **Mehefin 2013** |
| **Dyddiad Adolygu:** | **Chwefror 2015** |
| **Awdur:** | **Sharon Barron, Clerc y Gorfforaeth** |

**Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn print bras, ar dâp sain neu mewn fformat arall:**

**Ffoniwch Swyddfa'r Clerc ar 01792 284222 neu e-bostiwch: sharon.barron@coleggwyrabertawe.ac.uk**

## 1. TROSOLWG

1.1 Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i ddatblygu hinsawdd o fod yn agored yn y modd y mae’n gweithredu. Gan hynny, mae’n ymrwymedig i ddatgelu a diddymu unrhyw dwyll, llygredigaeth neu gamarfer.

Yn aml, gweithwyr fydd y cyntaf i weld neu amau camymddwyn o ryw fath a all, mewn nifer o achosion, fod yn gamymddwyn, llygredigaeth neu dwyll difrifol. Os nad oes gan weithwyr yr hyder i godi pryderon am gamarfer yn fewnol, efallai y byddant yn cadw’r mater at eu hunain.

Neu, efallai y byddant yn teimlo eu bod am fynd at y cyfryngau a byddai hyn yn anfoddhaol ar gyfer y gweithiwr a’r Coleg. Mae’n bwysig felly bod gweithdrefn ddiogel a hygyrch gan weithwyr ar gyfer codi pryderon mewn modd cyfrinachol.

### Chwythu'r Chwiban:

Gellir crynhoi manteision gweithdrefn Chwythu'r Chwiban fel a ganlyn:

- Darparu cyfrwng a phroses i weithwyr unigol godi pryderon gwirioneddol a dilys
- Atal camymddwyn difrifol
- Sicrhau bod staff yn chwarae eu rhan ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi
- Osgoi rheolaeth argyfwng a beirniadaeth gyhoeddus, a
- Hybu atebolrwydd ar draws y Coleg

### Cwmpas y weithdrefn Chwythu'r Chwiban:

Bwriad y weithdrefn ganlynol, yw rhoi cyfle i bawb sy'n cymryd rhan ymddwyn yn broffesiynol ac yn briodol, **i ddiogelu cyfrinachedd y sawl sy'n codi'r pryder** ac i sicrhau y bydd y pryder yn cael ei ymchwilio'n llawn ac yn ddiduedd cyn ei fod ar gael i’r cyhoedd.

Bydd cyflogeion a gweithwyr eraill yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu diswyddo neu unrhyw driniaeth anffafriol arall os ydynt yn gwneud datgeliadau yn unol â Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998. Mae hyn yn golygu bod datgelu gwybodaeth o unrhyw fath yn cael ei wneud er lles y cyhoedd, yn ôl cred resymol y gweithiwr. (Erbyn hyn derbynnir bod Chwythu'r Chwiban yn cynnwys codi’r mater yn fewnol yn ogystal â datgeliad ehangach).
Gall gweithwyr hefyd gael eu hamddiffyn o dan Erthygl 10 - Yr Hawl Rhyddid Mynegiant, o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

1.2 Yng Ngholeg Gŵyr Abertawe, mae Cod Ymddygiad ar gyfer Staff ac mae'r rhan fwyaf o staff yn gwneud pob ymdrech i gynnal safonau uchel o gwrteisi/gonestrwydd yn eu hymwneud â'r staff a myfyrwyr eraill.

Ar yr adegau prin hynny pan nad yw hyn yn wir, aelodau o staff yn aml yw'r cyntaf i sylweddoli y gall fod rhywbeth mawr o'i le. Fodd bynnag, efallai na fyddant yn mynegi eu pryder am eu bod yn teimlo y byddai'n annheyrngar i'w cydweithwyr neu i'w cyflogwr. O dan yr amgylchiadau, gall fod yn haws anwybyddu'r pryder yn hytrach nag adrodd yr hyn a allai fod yn amheuaeth o gamymddwyn yn unig.

1.3 Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn annog staff i godi pryderon dilys am gamarfer cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Mae camymddwyn yng Ngholeg Gŵyr Abertawe yn cael ei gymryd o ddifrif.

1.4 Bwriad y weithdrefn hon yw darparu mesurau diogelu i roi cyfle i staff godi pryderon am gamarfer mewn cysylltiad â Choleg Gŵyr Abertawe. Y nod yw cynnig dull cyflym ar gyfer codi pryderon gwirioneddol yn fewnol ac, os oes angen, yn allanol heb ofn ôl-effeithiau andwyol i'r unigolyn.

Ar draws Coleg Gŵyr Abertawe bwriedir hefyd hyrwyddo diwylliant o fod yn agored ac ymdeimlad a rennir o onestrwydd drwy wahodd yr holl weithwyr i ymddwyn yn gyfrifol er mwyn cynnal enw da Coleg Gŵyr Abertawe ac i gynnal hyder y cyhoedd.

1.5 Mae'r weithdrefn hon hefyd yn ceisio cydbwyso'r angen i ddarparu mesurau diogelu ar gyfer staff sy'n codi pryder gwirioneddol am gamarfer yn erbyn yr angen i ddiogelu aelodau eraill o staff, Llywodraethwyr, myfyrwyr a Choleg Gŵyr Abertawe yn erbyn honiadau blinderus neu ddireidus a all achosi anawsterau difrifol i unigolion diniwed.

1.6 Dylai staff fod yn ymwybodol y byddant yn destun gweithdrefnau disgyblu os sefydlir bod unrhyw honiadau a wneir yn flinderus neu'n ddireidus. Mae honiad blinderus yn bryder sy'n cael ei godi heb sail ddigonol gyda'r bwriad o achosi blinder neu orbryder.

1.7 Rhaid codi pob pryder am gamarfer yn unol â'r Polisi a'r Weithdrefn Chwythu'r Chwiban. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd unrhyw bryderon am gamarfer, boed ar lafar neu'n ysgrifenedig, sy'n cael eu codi y tu allan i'r weithdrefn hon yn cael eu cyfeirio at Glerc y Gorfforaeth. Bydd y Clerc wedyn yn cyfeirio'r mater at Aseswr Dynodedig.

1.8 Bydd honiadau o gamarfer a dderbynnir gan fyfyrwyr ac aelodau o'r cyhoedd yn cael eu trin yn unol â Gweithdrefn Gwyno'r Coleg.

1.9 Mae gweithdrefn Chwythu'r Chwiban yn ddull i weithiwr fynegi pryder am berygl posibl, anghyfreithlondeb neu risg ddifrifol a allai fygwth cwsmeriaid, cydweithwyr, rhanddeiliaid, y cyhoedd neu enw da'r sefydliad.

Nid yw gweithdrefn Chwythu'r Chwiban yn ddull i weithwyr godi cwynion am eu sefyllfa bersonol, gan gynnwys cwynion am dorri contractau cyflogaeth y gweithwyr eu hunain. Mae Gweithdrefn Gwyno'r Coleg ar waith i ddelio â materion o'r fath.

## 2. CAMARFER

2.1 Y materion a ystyrir yn *gamarfer* at ddibenion y weithdrefn hon yw:

- Twyll ac afreoleidd-dra ariannol neu academaidd;
- llygredigaeth, llwgrwobrwyo neu flacmel;
- troseddau;
- methiant i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu reoleiddiol;
- camweinyddiad cyfiawnder;
- peryglu iechyd neu ddiogelwch unrhyw unigolyn;
- peryglu'r amgylchedd;
- defnydd amhriodol o awdurdod;
- camweinyddu ariannol difrifol oherwydd ymddygiad amhriodol bwriadol;
- ymddygiad anfoesegol;
- celu gwybodaeth yn fwriadol sy'n tueddu i ddangos tystiolaeth o unrhyw un o'r uchod.

Ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gynhwysfawr. Anogir gweithwyr i godi unrhyw bryderon eraill sydd ganddynt am unrhyw faterion a all fygwth buddiannau Coleg Gŵyr Abertawe, ei weithwyr, ei fyfyrwyr neu'r cyhoedd.

## 3. ASESWYR DYNODEDIG

3.1 Bydd Bwrdd y Gorfforaeth yn sicrhau bod o leiaf ddau aelod o'r Gorfforaeth sydd â phrofiad a statws priodol yn y Coleg yn cael eu penodi ar unrhyw adeg at ddibenion y weithdrefn hon fel *Aseswyr Dynodedig* a bydd un o'r aelodau'n cael ei benodi'n *Brif Aseswr*.

3.2 Bydd Bwrdd y Gorfforaeth yn dewis unrhyw Aseswyr Dynodedig newydd. Yr Aseswyr Dynodedig presennol yw:

- Mrs Chantal Patel (Prif Aseswr);
- Dr Peter Padley;
- Mr Gary Williams.

Mae'n bosibl y bydd Bwrdd y Gorfforaeth yn diddymu unrhyw benodiad o'r fath o bryd i'w gilydd a phenodi Aseswyr Dynodedig gan ddilyn y weithdrefn ddethol fel y nodwyd uchod.

3.3 Bydd y Prif Aseswr yn cydlynu hyfforddiant yr Aseswyr Dynodedig o ran defnyddio'r weithdrefn hon.

3.4 Ar ran y Prif Aseswr, bydd Clerc y Gorfforaeth yn cynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Bwrdd y Gorfforaeth gan nodi faint o weithiau mae'r weithdrefn hon wedi cael ei defnyddio'n ffurfiol a'r canlyniad.

## 4. GWEITHDREFN AR GYFER CODI PRYDER AM GAMARFER

4.1 Bydd y weithdrefn hon yn cael ei defnyddio pan fydd unigolyn *(y Datgelydd)* sy'n gyflogai, a/neu'n weithiwr contract asiantaeth a gyflogir gan Goleg Gŵyr Abertawe yn datgelu bod ganddo sail i gredu bod camarfer wedi digwydd, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd mewn cysylltiad â Choleg Gŵyr Abertawe (p'un ai ar ran cyflogai arall, aelod o Fwrdd y Gorfforaeth, neu unrhyw berson arall (personau eraill).

4.2 Dylai'r Datgelydd ffonio:

**Swyddfa'r Clerc ar 01792 284222**

Anfonwch e-bost at y Clerc:

**sharon.barron@coleggwyrabertawe.ac.uk**

neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol:

**Preifat a Chyfrinachol: I'r Derbynnydd yn Unig (PID)**
**Clerc y Gorfforaeth**
**Coleg Gŵyr Abertawe**
**Heol Tycoch**
**Abertawe SA2 9EB**

4.3 Dim ond Clerc y Gorfforaeth fydd yn ateb y rhif ffôn hwn.

4.4 Mewn amgylchiadau eithriadol er enghraifft lle mae honiad o gamarfer yn cynnwys Clerc y Gorfforaeth, dylai'r achwynydd gysylltu â Chadeirydd y Gorfforaeth cyn cysylltu â chyfreithwyr y Coleg yn y cyfeiriad canlynol:

Morgan Cole
Llys Tawe
Heol y Brenin
SA1 Ardal y Glannau Abertawe
Abertawe
SA1 8PG

4.5 Dylai'r Datgelydd ddatgelu yn gyfrinachol i un o'r Aseswyr Dynodedig ar ba sail mae'n credu bod camarfer wedi digwydd cyn gynted ag y bo modd. Efallai y bydd y Datgelydd am ddewis Aseswr Dynodedig, ond gall Aseswr Dynodedig wrthod ymwneud â'r mater ar sail resymol, fel:

- cysylltiad blaenorol posibl neu ddiddordeb yn y mater o dan sylw;
- analluogrwydd;
- ddim ar gael;
- cytuno â'r Prif Aseswr y byddai'n fwy priodol i Aseswr arall ystyried y mater yn unol â'r weithdrefn.

4.6 Bydd yr Aseswr Dynodedig yn cynnig cyfweld â'r Datgelydd yn gyfrinachol cyn gynted ag sy'n bosibl, ac fel rheol bydd y cyfweliad yn cael ei gynnal o fewn 10 diwrnod gwaith o'r datgeliad cychwynnol. Pwrpas y cyfweliad fydd i'r Aseswr Dynodedig gael cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl gan y Datgelydd ynghylch ar ba sail y mae'n credu bod camarfer wedi digwydd ac ymgynghori â'r Datgelydd ynghylch y camau pellach y gellid eu cymryd. Efallai y bydd y Datgelydd am gael cynrychiolydd o'r Undeb Llafur neu gydweithiwr yn gwmni iddo/iddi yn y cyfweliad. Mae'n bosibl y bydd cynorthwyydd gweinyddol gyda'r Aseswr Dynodedig i gymryd nodiadau. Ni fydd enw'r Datgelydd yn y nodiadau. Mae camau diogelu o ran cyfrinachedd i'w gweld yn Adran 7.

4.7 Er mwyn annog gweithiwr i godi pryder dilys heb ofni torri cyfrinachedd y mater yn ddamweiniol mewn unrhyw ffordd, gall fynegi'r pryder ar lafar. Bydd yr Aseswr Dynodedig yn gwneud nodiadau llawn (heb nodi pwy yw'r Datgelydd), a bydd copi o'r cofnod ysgrifenedig ar gael i'r Datgelydd.
Bydd pob ymateb i'r Datgelydd yn ysgrifenedig a bydd yn cael ei anfon i'w gyfeiriad/chyfeiriad cartref yn hytrach na thrwy bost mewnol y Coleg.
Gallwch gyflwyno pryderon yn ysgrifenedig i'r Aseswr Dynodedig a fydd yn sicrhau bod pryderon ysgrifenedig o'r fath yn cael eu cadw yn ddiogel (gan y Clerc) heb eu datgelu i unrhyw drydydd parti heb ganiatâd y Datgelydd.

## 5. Ymchwilio i'r datgeliad

5.1 Cyn gynted ag sy'n bosibl ac fel rheol o fewn 10 diwrnod gwaith o'r cyfweliad, bydd yr Aseswr Dynodedig yn cynnal ymchwiliadau rhagarweiniol ac ar ôl hyn, mae'n bosibl y bydd yn argymell pa gamau pellach y dylid eu cymryd.

Pan fo'n berthnasol, efallai y bydd gweithdrefnau cwyno neu ddisgyblu'r coleg yn weithredol a byddai'r tîm AD yn arwain y gwaith hwn neu, (heb gyfyngiad) bydd yn cynnwys un neu ragor o'r canlynol:

- y dylai'r Aseswr Dynodedig ymchwilio i'r mater yn fewnol gan ymgynghori â'r fath gyrff mewnol/allanol fel yr ystyrir yn briodol. Fel rheol bydd hyn o fewn 20 diwrnod gwaith o'r argymhelliad yn ymwneud â'r camau pellach i'w cymryd. Gallai gynnwys defnyddio Adran Ansawdd y Coleg, AD a'r Archwilwyr hefyd;
- y dylid adrodd y mater i'r AdAS, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu awdurdod cyhoeddus priodol arall;

- y dylid adrodd y mater i'r Heddlu.

  Bydd Aseswr Dynodedig y Pennaeth yn gwneud unrhyw argymhellion o dan yr ymchwiliad hwn, ac eithrio bod y Pennaeth yn ymwneud â'r honiad o gamarfer, neu fod sail resymol arall dros beidio â gwneud hynny (ac os felly, bydd yr argymhellion yn cael eu gwneud i Gadeirydd neu Is-gadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth).

  Mewn unrhyw achos, bydd yr argymhellion yn cael eu gwneud heb ddatgelu pwy yw'r Datgelydd, heblaw am yr hyn a nodir ym mharagraff 7.1 isod. Bydd derbynnydd yr argymhellion yn:

- cymryd pob cam o fewn ei (g)allu i sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu ac eithrio i'r graddau, ym marn y derbynnydd, mae rhesymau da dros beidio â gwneud hynny;

- cyflwyno cynllun gweithredu (gan gynnwys amserlenni) yn ymwneud â gweithredu unrhyw argymhellion i'r Aseswr Dynodedig o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn argymhellion yr Aseswr Dynodedig.

  Os bydd y derbynnydd yn penderfynu peidio â gweithredu unrhyw argymhellion o'r fath yn llawn bydd Cadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth yn cael ei hysbysu yn ysgrifenedig o'r penderfyniad hwnnw (neu'r Is-gadeirydd os mai'r derbynnydd yw'r Cadeirydd) a'r Aseswr Dynodedig cyn gynted ag sy'n ymarferol, ynghyd â'r rhesymau amdano.

5.2 Pan fydd y Pennaeth (neu dderbynnydd arall) wedi penderfynu pa gamau pellach (os o gwbl) y dylid eu cymryd, bydd yr Aseswr Dynodedig yn hysbysu'r Datgelydd o'r penderfyniad. Os na chynigir unrhyw gamau pellach gan Goleg Gŵyr Abertawe, bydd yr Aseswr Dynodedig yn rhoi'r rheswm dros hyn.

5.3 Dyma'r rhesymau pam y gallai'r Aseswr Dynodedig argymell na ddylai Coleg Gŵyr Abertawe gymryd unrhyw gamau pellach:

- mae'r Aseswr Dynodedig yn fodlon nad oes cred resymol gan y Datgelydd bod camarfer, o fewn ystyr y weithdrefn hon, wedi digwydd, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd; neu

- mae'r mater o dan sylw eisoes yn destun achos cyfreithiol, neu wedi cael ei gyfeirio at unrhyw un o'r cyrff allanol fel y nodir o dan baragraff 5.1; neu

- mae'r mater eisoes (neu eisoes wedi bod) yn destun achos o dan un o weithdrefnau eraill y Coleg yn ymwneud â staff neu fyfyrwyr.

## 6. Rôl y Clerc:

6.1 Bydd y Clerc yn cynorthwyo yn y gwaith o gasglu gwybodaeth ar gyfer yr Aseswr Dynodedig a chydgysylltu â'r Datgelydd a'r Aseswr Dynodedig.

Bydd y Clerc yn rhoi cymorth gweinyddol i'r Aseswr Dynodedig a bydd yn cymryd nodiadau pan fydd angen. Bydd y Clerc hefyd yn sicrhau bod unrhyw ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â'r datgeliad yn cael ei chadw'n ddiogel trwy'r amser.

## 7. Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd y deliwyd â'ch pryderon:

Os nad yw'r Datgelydd yn fodlon yr ymdrinnir â'i bryderon/phryderon yn foddhaol, gall y Datgelydd godi'r mater gyda Chlerc y Gorfforaeth o fewn 10 diwrnod gwaith o'r dyddiad y cafodd wybod am y canlyniad.

Gall y Clerc neu gyfreithwyr y Coleg gyfeirio'r mater at Aseswr arall ac eto, bydd hawl gan y Datgelydd gael ei hysbysu o ganlyniad yr ail ymchwiliad hwnnw cyn belled ag sy'n bosibl, yn amodol ar hawliau unrhyw drydydd parti a chael gwybod am y camau a gymerwyd mewn ymateb i'r pryderon. Mae hawl gan y Datgelydd ofyn am o leiaf ddau ymchwiliad i'w pryderon o dan y polisi hwn.

Caiff unrhyw argymhellion a wneir o dan y weithdrefn hon eu rhannu â'r aelodau hynny o staff y cyfwelwyd â nhw fel rhan o'r ymchwiliad, os yw'n briodol.

## 8. DATGELIAD ALLANOL

8.1 Gall y Datgelydd godi'r mater hefyd yn unol â pharagraff 6.1 uchod, os oes gan y Datgelydd sail **resymol** dros gredu bod pob un o'r Aseswyr Dynodedig sydd ar gael yn rhan o'r camarfer honedig neu y bydd y Datgelydd yn dioddef o ganlyniad i wneud datgeliad.

8.2 Gall y Datgelydd ar unrhyw adeg ddatgelu'r mater yn gyfrinachol i gyfreithiwr cymwysedig proffesiynol a thalu eu costau eu hunain at ddibenion cael cyngor cyfreithiol.

## 9. EGWYDDORION Y POLISI

9.1 Ni fydd unrhyw adroddiad neu argymhelliad gan yr Aseswr Dynodedig yn ymwneud â'r mater yn adnabod y Datgelydd oni bai bod y Datgelydd yn rhoi caniatâd ysgrifenedig bod sail resymol dros gredu bod y Datgelydd wedi gweithredu'n faleisus. Heb ganiatâd neu sail o'r fath ni fydd yr Aseswr Dynodedig yn datgelu enw'r Datgelydd o dan y weithdrefn hon ac eithrio:

- os yw'r Aseswr Dynodedig o dan rwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny; neu
- os yw'r wybodaeth eisoes ar gael i'r cyhoedd;
- ar sail gwbl gyfrinachol i gynorthwyydd gweinyddol yr Aseswr Dynodedig (y Clerc) am y tro; neu

- ar sail gwbl gyfrinachol i gyfreithiwr cymwysedig proffesiynol er mwyn cael cyngor cyfreithiol.

9.2 Bydd unrhyw ddogfennau (gan gynnwys ffeiliau cyfrifiadurol a disgiau) sydd gan yr Aseswr Dynodedig yn ymwneud â'r mater yn cael eu cadw'n ddiogel gan y Clerc, ac felly cyn belled ag y bo'n ymarferol dim ond yr Aseswr Dynodedig a'i gynorthwyydd gweinyddol fydd yn cael mynediad atynt.
Cyn belled ag y bo'n ymarferol, ni fydd unrhyw ddogfennau a baratowyd gan yr Aseswr Dynodedig yn datgelu pwy yw'r unigolyn sy’n datgelu’r wybodaeth o dan y weithdrefn hon.

9.3 Pan fydd y Datgelydd yn cynnwys cynrychiolydd o’r Undeb Llafur lleol neu gydweithiwr yn y weithdrefn hon, bydd y Datgelydd o dan rwymedigaeth i wneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y cynrychiolydd neu’r cydweithiwr yn cadw’r mater hwn yn gwbl gyfrinachol heblaw, fel y caniateir o dan y weithdrefn hon, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, neu hyd nes y bydd ar gael i’r cyhoedd.

9.4 Ni fydd Coleg Gŵyr Abertawe yn gofyn i’r Datgelydd gymryd rhan, heb ei ganiatâd, mewn unrhyw ymholiad neu ymchwiliad i'r mater a sefydlwyd gan y Coleg oni bai bod sail resymol dros gredu y gallai’r Datgelydd fod wedi ymwneud â chamymddwyn neu gamarfer.

9.5 Os yw’r Datgelydd yn cymryd rhan mewn unrhyw ymholiad neu ymchwiliad o'r fath, fel arfer rhaid bod hyn ar sail agored yn hytrach nag ar sail gyfrinachol, er y bydd rhwymedigaethau’r Aseswr Dynodedig o dan baragraff 7.1 o’r weithdrefn hon yn parhau o ran pwy yw’r Datgelydd gwreiddiol, sydd wedi datgelu gwybodaeth o dan y weithdrefn hon.

9.6 Ni fydd Coleg Gŵyr Abertawe (a bydd yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau na fydd ei weithwyr) yn peri unrhyw niwed i'r Datgelydd, gan gynnwys bwlio neu aflonyddu gan weithiwr arall ar sail datgelu gwybodaeth o dan y weithdrefn hon. Dylai'r Datgelydd adrodd unrhyw gwynion o’r fath driniaeth i Aseswr Dynodedig. Os bydd y Datgelydd yn dymuno i'r Aseswr Dynodedig gymryd camau yn ymwneud â chwynion o'r fath, efallai y gofynnir i'r Datgelydd roi caniatâd ysgrifenedig i'r Aseswr Dynodedig ddatgelu pwy yw'r Datgelydd er mwyn cymryd camau o'r fath.

9.7 O ran paragraffau 7.1-7.6 uchod, os, ar unrhyw adeg, bydd yr Aseswr Dynodedig yn teimlo ei fod wedi’i rwymo o dan delerau'r weithdrefn hon i ddatgelu pwy yw’r Datgelydd i drydydd parti, yn gyntaf bydd yr Aseswr Dynodedig yn hysbysu'r Datgelydd yn ysgrifenedig, gan roi rhesymau.

9.8 Ni fyddwn yn goddef erledigaeth neu unrhyw driniaeth anffafriol arall i gyflogai neu aelodau eraill o staff oherwydd bod yr unigolyn hwnnw wedi codi pryderon o dan y polisi hwn, neu er mwyn atal yr unigolyn hwnnw rhag codi pryder o'r fath. Bydd yn cael ei drin fel trosedd disgyblu difrifol o dan weithdrefn ddisgyblu’r Coleg.

## 10. GWARCHOD YN ERBYN CAMAU DISGYBLU

10.1 Ni fydd unrhyw gamau disgyblu'n cael eu cymryd yn erbyn Datgelydd ar sail datgeliad a wnaed gan y Datgelydd yn unol â'r weithdrefn hon, oni bai y sefydlir bod y datgeliad yn faleisus neu flinderus.
Fodd bynnag, os yw gweithiwr wedi camddefnyddio'r polisi i wneud honiadau ffug neu faleisus, caiff hyn ei drin fel trosedd disgyblu difrifol o dan weithdrefnau disgyblu'r Coleg.
Mae honiad maleisus yn bryder a ysgogir gan neu o ganlyniad i awydd i beri niwed neu boen i rywun arall.

## 11. ADOLYGU'R WEITHDREFN

11.1 Mae'n bosibl y bydd Bwrdd y Gorfforaeth yn diwygio'r weithdrefn hon o bryd i'w gilydd, yn dilyn trafodaethau â staff a rhanddeiliaid allweddol.

11.2 Bydd y weithdrefn hon yn cael ei hadolygu bob dwy flynedd neu'n gynt os bydd yn briodol. Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y weithdrefn at Aseswr Dynodedig neu'r Clerc:

**Ffôn: 01792 284222**
**E-bost: lucy.griffiths@coleggwyrabertawe.ac.uk**
**Ysgrifennwch at:**
**Preifat a Chyfrinachol: I'r Derbynnydd yn Unig (PID)**
**Clerc y Gorfforaeth**
**Coleg Gŵyr Abertawe**
**Heol Tycoch**
**Abertawe**
**SA2 9EB**

11.3 Bydd canllawiau ynghylch sut i godi mater am gamarfer (chwythu'r chwiban) ar gael i bob aelod o staff yn ystod y sesiwn sefydlu.

## 12. Yr Iaith Gymraeg

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a bydd yn ymdrechu i ddelio ag anghenion siaradwyr Cymraeg ậ'u cefnogi yn unol ậ Chynllun Iaith Gymraeg y Coleg.